



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 14EG RHAGFYR 2016 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr:

N. George (Gwasanaethau Hamdden a Chymunedol), D. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), Mrs B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), D.V. Poole (Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Dai), T.J. Williams (Prifffyrdd, Cludiant a Pheirianeg), R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harry (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau) ac N. Scammell (Cyfarwyddwraig Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151).

Hefyd yn Bresennol:

S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), A. West (Rheolwraig Derbyniadau a Gwaharddiadau Ysgol), S. Richards (Prif Swyddog Cyllid), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Democrataidd Dros Dro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr C. Forehead (Gwasanaethau Corfforaethol), K. James a K. Reynolds a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

2. DATGANIADAU DIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET - 30AIN TACHWEDD 2016

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Tachwedd 2016 (rhifau cofnod. 1 -7) a'i lofnodi fel cofnod cywir.

MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

4. Y DIWEDDARAF AR GRONFEYDD WRTH GEFN

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar y 15fed o Dachwedd 2016, yn darparu manylion o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ac yn ystyried cynigion er defnydd y cronfeydd wrth gefn mewn rhai meysydd.

Nododd Aelodau fod y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd gan yr Awdurdod fel ag sydd ar y 1af o Ebrill 2016 sef cyfanswm o £122.622m, gyda manylion o'r rhain wedi eu gosod yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi'r arian wrth gefn, sy'n cael eu cynnal ar draws nifer o feysydd (Cronfa Gyffredinol, Cyfrif Refeniw Tai, Cronfeydd Cyfalaf a chyfadranau unigol).

Cynghorwyd yr Aelodau mai'r balans agoriadol y Gronfa Gyffredinol gyfredol o'r 1 Ebrill, 2016 oedd £ 12.615miliwn ac ar ôl addasu ar gyfer y defnydd a gymeradwyir o'r balansau hyn yn ystod 2016/17, y balans a ragwelir ar y 31ain Mawrth 2017 ar hyn o bryd yw £11.155m. Mae'r balans yn uwch na'r isafswm ar y lefel yr argymhellir o £10miliwn sydd tua 3% o gyllideb refeniw net yr Awdurdod. Y balans cronfeydd Cyfrif Refeniw Tai defnyddiadwy wrth gefn ar y 1af Ebrill 2016 oedd £ 21.218miliwn ac ni ellir ei drosglwyddo i mewn i falansau Gronfa Gyffredinol. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Rhaglen Cyfalaf Safon Ansawdd Tai Cymru. (SATC) Cronfeydd Cyfalaf sef cyfanswm o £39.156miliwn ar y 1af o Ebrill 2016 ac mae'r rhain yn cael eu clustnodi ar gyfer Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod, gan gynnwys cymeradwyo ar gyfer cyllid cyfatebol Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cafodd aelodau eu cynghori bydd y cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn destun adolygiad manwl dros y misoedd nesaf a bydd y canlyniad yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu maes o law.

Mae adrannau 4.5 i 4.8 o'r adroddiad yn rhoi manylion am y cronfeydd wrth gefn unigol a gynhelir ar draws pob cyfadran fel yr oedd ar 1 Ebrill 2016 (cyfanswm o £49.633miliwn). Yn dilyn adolygiad o'r balansau hyn, roedd yr adroddiad yn argymhell y dylai rhai cronfeydd wrth gefn heb eu hymrwymo gael eu rhyddhau i'r balansau y Gronfa Gyffredinol.

Cafodd y Cabinet hefyd eu cynghori fod y Strategaeth Cronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd gan y Cabinet ar y 27ain o Orffennaf 2016 yn cyflwyno cap ar y swm cronnus y gellir ei ddal gan Gyfadranau mewn cronfa tanwariant gwasanaeth. Mae'r cap wedi cael ei osod ar 3% o'r cyllid refeniw net ar gyfer pob Cyfadran. Lle mae hyn yn cael ei ragori, yna rhaid i gynigion gael eu cyflwyno i ddefnyddio'r gormodedd neu mae'n rhaid cyfiawnhau cadw'r llyfr yn uwch na lefel 3%. Mae paragraff 4.9.3 o'r adroddiad yn amlinellu cynigion i ddefnyddio neu gadw'r gronfa wrth gefn gormodol cronedig ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd yr aelodau yn y cyfarfod ar 19eg Hydref 2016, cytunodd y Cabinet i ddefnyddio £247 o'r tanwariant wrth gefn o £305 dros yr Amgylchedd i ran-ariannu gorwariant cyfalaf.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad a gofynnwyd iddynt nodi, o ganlyniad i'r pwyll a chynllunio, gall gyllid gael ei gynnig i Ysgolion er mwyn ariannu nifer o fentrau er mwyn gwella a chefnogi'r agenda Cyrhaeddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

- (i) i nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) cronfa a glustnodwyd o £150 mil yn cael ei sefydlu gan y Rheolaeth Leol o Ysgolion Wrth Gefn mewn perthynas â chymorth wedi'i dargedu i godi cyrhaeddiad lefelau TGAU;

(iii) y cronfeydd canlynol yn cael eu rhyddhau i balansau y Gronfa Gyffredinol: - Gwasanaethau Corfforaethol - Polisi (£32), Gwasanaethau Corfforaethol - Hysbysebion Recriwtio a Chostau Cyfreithiol (£133), Gwasanaethau Corfforaethol - Budd-daliadau Tai (£100) ac Addysg a Dysgu Gydol Oes - Gwarchodfeydd Mentrau Gwasanaeth (£28 mil);

(iv) cronfeydd danwariant cronedig uwchben y cap 3% yn cael ei ddefnyddio fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 4.9.3 yr adroddiad.

5. SAIL TRETH Y CYNGOR 2017-2018

Fe wnaeth yr adroddiad geisio cael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cyfrifiad Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2017/18.

Nododd y Cabinet fod y Rheoliadau Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'u diwygiwyd yn gosod y rheolau allan ar gyfer cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor.

Mae Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer anheddau cyhuddadwy disgownt wedi'i fynegi fel cyfwerth Band D wedi cael ei gyfrifo ar 61,535.91 ar gyfer 2017/18. Mae hyn yn gynydd o 0.19% ar 2016/17 ac mae cyfradd casglu o 97% wedi cael ei honni. Mae'r Cyngor yn dilyn ôl-ddyledion Treth y Cyngor ac mae hyn yn arwain at y gyfradd gasglu o 97% yn cael eu rhagori yn rheolaidd ac yn cynhyrchu gweddill treth y cyngor, sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi cyllideb sylfaenol yr Awdurdod.

Yn dilyn diddymu Budd-dal Treth y Cyngor yn 2013/14 gan Lywodraeth Glymblaid y DU, penderfynodd Llywodraeth Cymru (LIC) i gynnal hawliau o dan y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor (CTRS) hyd 31 Mawrth 2017. Ym mis Tachwedd 2013, cyflwynodd y LIC rheoliadau yn gosod dyletswydd awdurdodau lleol i gyflwyno Cynlluniau Gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15. Cafodd hyn ei ymestyn ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Yn ogystal mae LIC wedi cyhoeddi y byddent yn parhau i ddiogelu cartrefi incwm isel bregus drwy gynnal hawliau llawn ar gyfer CCTC tan ddiwedd 2017/18.

Ers 2014/15 mae cyllid ar gyfer u CCTC wedi cael ei gynnwys o fewn Grant Cynnal Refeniw ar lefelau 2013/14. Felly, byddai'n rhaid i unrhyw gynydd mewn gwariant CCTC gael eu bodloni gan yr Awdurdod, o ganlyniad, byddai'n ddoeth i wneud cais am yr un cynnydd canrannol yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2017/18, y cyfanswm yr arian a neilltuwyd ar gyfer CCTC. Yna byddai angen gosod elfen o'r cynnydd mewn refeniw o Dreth y Cyngor o'r neilltu i ariannu'r cynnydd mewn costau CTRS.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr a mynegi eu gwerthfawrogiad am y gwaith caled ac ymroddiad y staff ar eu pwyll, ac o ganlyniad, darparu argymhellion cadarnhaol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) mae'r gyfradd Casglu Treth y Cyngor o 97% yn aros yr un peth ar gyfer 2017/18.;

(ii) Mae cyllid CTRS yn cynyddu gan yr un ganran a Threth y Cyngor ar gyfer 2017/18. Bydd hyn yn cael ei gyllido drwy osod cyllid i'r neilltu gan incwm Treth y Cyngor a ragwelir fel yr amlinellir ym mharagraff 4.6;

(iii) Sylfaen Treth y Cyngor am y flwyddyn 2017/18 fydd £ 59,689.83 gyda Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer pob ardal cyngor cymuned fel yr amlinellir ym mharagraff 4.7.

6. YSGOLION CYNRADD ABERTYSWYG/PONTLOTYN AC YSGOL UWCHRADD ISLWYN-DYDDIADAU AGOR DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG

Roedd yr adroddiad yn ceisio cael cymeradwyaeth y Cabinet er mwyn nodi'r partïon perthnasol o'r oedi i weithredu dyddiadau'r prosiectau uchod.

Nododd yr Aelodau cafodd y Rhybudd Statudol ei gyhoeddi ar yr 20fed o Ebrill 2015 a gorffennodd ar y 18fed o Fai 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn nodi'n benodol yn wreiddiol dyddiad agor yr ysgol newydd sef 1 Ionawr 2017, fodd bynnag, daeth y prosesau achos busnes yn hir, yn enwedig o ran costau amcangyfrifedig y cynllun. Derbyniodd yr achos busnes llawn (Abl) gymeradwyaeth terfynol gan Lywodraeth Cymru (LIC) ar 13eg Mehefin 2016.

Penodwyd Willmott Dixon fel y Contractydd a dechreuwyd arolygon y safle a byddiniad ym mis Medi 2016. Ym mis Tachwedd 2016, cytunwyd ar gynllun ar gyfer y rhaglen adeiladu a rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2017 gyda'r ysgol newydd yn agor yn Ionawr 2018.

Oherwydd yr oedi yn agoriad yr ysgol, roedd yn angenrheidiol i gynghori'r partïon perthnasol yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2013. Yn ogystal, nodwyd fod llyfr Dechrau'n Deg Ysgolion y Cyngor ar gyfer 2016/17 wedi cydnabod yr oedi hyn drwy beidio gwneud unrhyw newidiadau i drefniadau presennol ar gyfer y flwyddyn academaidd hynny.

Nododd y Cabinet fod y Cyngor wedi cyhoeddi Rhybudd Statudol ar y 3ydd o Fawrth 2014 er mwyn atal Ysgolion Cyfun Oakdale a Phontllan-fraith a sefydlu ysgol newydd ar y safle llwyfandir 3 Oakdale. Daeth y newid hwn i rym ar 1af Medi 2016 i'r graddau y cafodd Ysgolion Uwchradd Oakdale a Phontllan-fraith eu hatal a chafodd Ysgol Uwchradd newydd Islwyn ei sefydlu, er hynny gweithredu 2 safle ysgol flaenorol i ddechrau.

Dechreuodd y contractwr (Wilmott Dixon) y rhaglen adeiladau yn haf 2015 a daeth yn amlwg y byddai adeilad yr ysgol ddim yn cael ei gwblhau tan ddiwedd Ebrill 2017. Serch hynny, fe wnaeth y Corff Llywodraethu newydd a gynhwyswyd gwrdd ym mis Tachwedd 2016 a chytunwyd i agor yr ysgol newydd i staff ar y 26ain Mehefin ac i ddisgyblion ddim yn hir ar ôl hynny. Mae'r pennaeth wedi cadw'r rhanddeiliaid allweddol wedi eu diweddarau gyda datblygiadau ac amserlenni ac mae adroddiadau diweddar wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, y byddai dyddiadau agoriadol yr ysgol ddiwygiedig agoriadol gael eu cytuno i alluogi partïon perthnasol i gael eu hysbysu yn unol â Chôd Trefniadaeth yr Ysgol 2013.

7. RHAGLEN FLAENGYNLLUNIO GWAITH Y CABINET.

Ceisio cefnogaeth y Cabinet ar Raglen Blaengynllunio ar gyfer y cyfnod Ionawr 2017 i fis Mawrth 2017 a oedd yn amlinellu'r adroddiadau Cabinet arfaethedig y dyfodol.

Mae'r Rhaglen Blaengynllunio yn cael ei ddiweddarau yn fisol er mwyn adlewyrchu unrhyw

newidiadau sy'n cael eu gwneud iddi ers iddi gael ei chytuno ar yr 22ain o Ionawr 2014.

Bydd Rhaglen Flaengynllunio Gwaith y Cabinet mwy manwl yn cael ei adolygu yn ystod y cyfnod hwn a bydd fformat mwy manwl yn cael ei ddatblygu.

Diolchodd aelodau'r Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ac fe wnaethant gais am adroddiad ychwanegol o adroddiad ar Ffioedd Claddu Plant.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar ychwanegu'r adroddiad mewn perthynas â Ffioedd Claddu Plant, ac am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i gytuno'r Blaenraglen Waith.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.25pm

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Ionawr, 2017.

CADEIRYDD